| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Crëwyd:** | 04/05/2018 |
| **Dyddiad y Cyhoeddwyd:** | 05/07/2022 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1.01 |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| **Man Gweithio:** | Gwasanaeth Lles Addysg |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 866603<br>llesaddysg@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Gwasanaeth Lles Addysg - atgyfeiriadau ar gyfer ymyrraeth a phlant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a/neu nad ydynt yn cael addysg addas. |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Gwasanaeth Lles Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir. Wrth brosesu cyfeiriadau ar gyfer ymyrraeth a sefydlu pwy yw’r plant nad ydynt wedi eu cofrestru mewn ysgol a/neu nad ydynt yn derbyn addysg addas. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Mae'n rhaid i ysgolion gyfeirio a rhoi ffurflenni i'r Awdurdod Lleol, gan roi enwau a chyfeiriadau pob disgybl cofrestredig o oedran ysgol gorfodol sy'n methu â mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn absennol heb awdurdod, a ystyrir ar goll o addysg neu y mae ei rieni wedi dewis i dynnu eu plentyn allan o'r ysgol i gael eu haddysgu gartref. Mae'r term 'ysgol' hefyd yn ymwneud â rhaglen addysg arall fel y cytunwyd neu a drefnwyd gan yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol. Bydd y ffurflenni hefyd yn cynnwys cofnod o ymyrraeth yn yr ysgol mewn perthynas â phresenoldeb yn yr ysgol. Mae gan ysgolion rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hyn o dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 a'r Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013.

Bydd yr wybodaeth hon, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan y disgybl, rhieni a sefydliadau perthnasol eraill, yn cael ei phrosesu gan y Gwasanaeth Lles Addysg sef yr adran yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd â'r cyfrifoldeb statudol am bresenoldeb yn yr ysgol a lles.

Er mwyn canfod pwy yw’r plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a/neu nad ydynt yn cael addysg addas, byddwn yn cael data genigaethau byw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Gellir gwneud ymholiadau hefyd i awdurdodau lleol / ysgolion eraill o fewn bwrdeistrefi eraill i sefydlu a all y plentyn fod wedi'i gofrestru yno.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Bydd y wybodaeth a dderbynnir yn cael ei chofnodi ar ein systemau a gellir ei phrosesu at y dibenion canlynol:

1. Asesu a chynnig y gefnogaeth gywir i gwrdd â'ch anghenion. Bydd unrhyw wybodaeth bellach at y diben hwn yn cael ei gasglu ar ffurflen Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd. Efallai y bydd angen i ni rannu'ch gwybodaeth â gwasanaeth arall CBSC neu sefydliad arall sydd â'r arbenigedd i gynnig y gefnogaeth gywir i ddiwallu'r anghenion hynny o dan y broses hon, ond eglurir hyn i chi. Mae rhagor o wybodaeth am sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio o dan y broses hon ar gael yma.

2. Darganfod pwy yw'r plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a / neu nad ydynt yn derbyn addysg addas, os yw'n berthnasol. Pwrpas y ddyletswydd yw sicrhau bod plant sydd ar goll o addysg yn cael eu hadnabod yn gyflym a bod systemau olrhain ac ymholi effeithiol yn eu lle i ddod o hyd iddynt. Felly, os rydych yn symud i Awdurdod Lleol arall o fewn y DU ac rydym yn darganfod nad ydych wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer lle ysgol i'ch plentyn neu'ch plant, byddwn yn trosglwyddo'ch manylion i'r Awdurdod Lleol sy'n derbyn er mwyn sicrhau bod eich plentyn neu'ch plant yn cael mynediad at y yr addysg fwyaf priodol mor gyflym â phosib. Byddwn yn cael data genedigaethau byw gan Fwrdd Iechyd Prifysgo Aneurin Bevan i gynorthwyo gyda'r broses hon ac mae'n bosibl y byddwn yn gwneud ymholiadau, efallai ag awdurdodau lleol / ysgolion eraill o fewn bwrdeistrefi eraill i sefydlu a yw'r plentyn wedi'i gofrestru yno.

   Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru rwymedigaeth gyfreithiol i gyflawni'r swyddogaeth hon o dan Adran 436A o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006; Deddf Addysg 1996; Deddfau Plant 1989 a 2004.

3. Darparu tystiolaeth mewn Llysoedd Ynadon neu Lysoedd Teulu am dramgwyddau dan ddarpariaethau Deddf Addysg 1996 os oes angen.

   Mae gan Awdurdodau Lleol rwymedigaeth gyfreithiol i gyflawni'r swyddogaeth hon o dan Adrannau 444 1, 444 1a a 444 ZA o Ddeddf Addysg 1996 a Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013.

4. Os credir y bydd plentyn mewn perygl o niwed sylweddol yn ystod cyfnod ein hymyriad, dilynir gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, a all arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gallai hyn gynnwys sawl asiantaeth fel gwasanaethau plant, yr heddlu neu'r gwasanaethau iechyd. Esbonnir y broses hon ymhellach i chi os yw'n berthnasol.

   Mae gan Awdurdodau Lleol rwymedigaeth gyfreithiol i gyflawni'r swyddogaeth hon o dan Ddeddf Plant 1989.

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

Pan fydd y brosesu yn cael ei wneud oherwydd rhwymedigaeth gyfreithiol a roddir ar CBSC, yr amod Erthygl 6 angenrheidiol fydd:

1e. mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:.

Pan fydd y prosesu yn cael ei wneud oherwydd rhwymedigaeth gyfreithiol a roddir ar CBSC, yr amod Atodlen 3 angenrheidiol fydd:

Deddf Diogelu Data 2018 - Atodlen 1 / Rhan 2

6 (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r brosesu-

(a) Yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), a

(b) Yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fudd sylweddol y cyhoedd.

(2) Y dibenion hynny yw -

(a) ymarfer swyddogaeth a roddwyd i berson drwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol;

(b) ymarfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth.

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

**Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd Gwasanaeth Lles Addysg CBSC.

Bydd mynediad i'ch gwybodaeth yn cael ei reoli, gan alluogi ymarferwyr o'r Gwasanaeth Lles Addysg i gael mynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'ch cefnogi. Bydd cofnodion ymyrraeth y Gwasanaeth Lles Addysg yn cael eu storio'n ganolog ar ein bas data cofnodion disgyblion a'u rhannu gyda'r ysgolion cyfeiriol.

Bydd cofnodion yn cael eu rhannu yn unig gyda gwasanaethau cymorth eraill os oes gennym ganiatâd i wneud hynny, neu os mae ymholiadau'n cael eu gwneud o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Efallai y bydd gan sefydliadau eraill fynediad i'ch gwybodaeth fel y nodir yn adran "Diben y gwaith prosesu" uchod.

Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

**Manylion y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Cedwir cofnodion addysgol nes bod y plentyn dan sylw yn cyrraedd ei 25ain pen-blwydd fel y'i argymhellir gan Reoliadau Gwybodaeth Disgyblion (Cymru) 2011.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau'r data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: [Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)]
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwynion**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae gan ysgolion rwymedigaeth gyfreithiol i gyfeirio a rhoi ffurflenni i'r Awdurdod Lleol, gan roi enwau a chyfeiriadau pob disgybl cofrestredig o oedran ysgol gorfodol sy'n methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn absennol heb awdurdod, sy'n cael ei ystyried ar goll o addysg neu sydd â rieni sydd wedi dewis i dynnu eu plentyn allan o'r ysgol i gael eu haddysgu gartref.

NEU

Er mwyn canfod pwy yw'r plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol a/neu nad ydynt yn cael addysg addas, efallai y byddwn yn cael data genedigaethau byw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gynorthwyo gyda'r broses hon ac efallai y byddwn yn gwneud ymholiadau gydag awdurdodau lleol eraill / ysgolion o fewn bwrdeistrefi eraill i sefydlu a all y plentyn gael ei gofrestru yno.

Bydd yr wybodaeth hon, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan y disgybl, rhieni a sefydliadau perthnasol eraill, yn cael ei phrosesu gan y Gwasanaeth Lles Addysg sef yr adran yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd â'r cyfrifoldeb statudol am bresenoldeb yn yr ysgol a lles.

Cedwir cofnodion addysgol nes bod y plentyn dan sylw yn cyrraedd ei 25ain pen-blwydd a gellir ei rhannu gydag eraill.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}